Cylchlythyr Ymwybyddiaeth o Gofalwyr

Crynodeb

Yn y cylchlythyr hwn:

- Adolygu Ymwybodol o Ofalwyr
- Canllaw Llywodraeth Cymru wedi'i ddiweddaru: rhyddhau cleifion o ysbytai a'r llif optimaidd i gleifion
- Hyfforddiant Ymwybodol o Ofalwyr ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol
- Hyfforddiant Ymwybodol o Ofalwyr ar-lein ar gyfer gweithwyr cymdeithasol
- Dylanwadu ar ran y prosiect
- Pecyn Cymorth Cyd-Gynhyrchu

Adolygu Ymwybodol o Ofalwyr

Carer Aware

Ymwybodol o Ofalwyr

Hoffem ddiolch o galon i'r gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol a gyfrannodd at ein hadolygiad ar-lein ar ddydd Mawrth 24 Ionawr. Fe wnaeth yr adolygiad edrych ar y canlynol:

- edrych ar gynnydd y prosiect dros y tair blynedd cyntaf;
- ystyried sut rydyn ni'n cyflawni ein nodau dros y ddwy flynedd nesaf;
- gofyn i'r rheini sy'n mynychu sut y gallen nhw gefnogi'r prosiect.

Cawsom gipolwg gwerthfawr, ac mae gennym gamau penodol i'w datblygu o'r adolygiad. Dyma rai o'r pynciau a drafodwyd:- yr hyfforddiant sydd ei angen i staff ym mhob rôl sy'n wynebu'r cyhoedd;

- bod angen i sefydliadau'r sector ddangos ymarfer da fel darparwyr gwasanaethau, ond hefyd fel cyflogwyr;
- defnyddioldeb y 'tabl cynghrair' rhwng awdurdodau lleol, i annog pobl i fod yn bresennol mewn hyfforddiant;
- cynyddu cyfranogiad gofalwyr mewn darparu hyfforddiant;
- pobl ddim yn adnabod eu hunain fel gofalwyr, wedi'i nodi'n arbennig ar gyfer gofalwyr o gymunedau Du a lleiafrifoedd ethnig;

- heriau'r prinder staff yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol;
- sicrhau eiriolaeth ar adegau tyngedfennol yn y system, fel cynllunio rhyddhau cleifion o ysbytai
- yr angen i hyrwyddo'r brand Ymwybodol o Ofalwyr, a sicrhau ymwybyddiaeth ehangach o'r adnoddau rhagorol sydd eisoes yn bodoli.

Rydym yn chwilio am rywfaint o aelodau ychwanegol o'r Bwrdd Cynghori hefyd, sydd yn ofalwyr a gweithwyr proffesiynol, sy'n gallu rhoi cipolwg a chyfeiriad gwerthfawr i ni, neu agor drysau yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r bwrdd yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn. Cysylltwch os oes gennych ddiddordeb neu os hoffech wybod mwy: dzilkha@carers.org

Canllaw Llywodraeth Cymru wedi'i ddiweddaru: rhyddhau cleifion o ysbytai a'r llif optimaidd i gleifion

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r canllawiau diweddaraf ar D2RA a SAFER, Red to Green, a fydd o ddiddordeb i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl ac sy'n cefnogi pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Mae'r dogfennau cyfarwyddyd hyn yn rhan o'r Chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng, o dan Nod 5 'Darparu'r gofal a'r ymarfer rhyddhau gofal posibl i'r claf ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty.

Mae'r pwysau ar y gwasanaeth iechyd a gofal drwy gydol y pandemig Covid-19 sydd wedi'i ddogfennu'n dda, a phwysau'r Gaeaf a'r gweithlu digynsail dros yr wythnosau diwethaf, wedi gweld gofalwyr di-dâl yn wynebu heriau a gofynion ychwanegol o ran anghenion gofal eu teulu a'u ffrindiau.

Wrth i ysbytai gael eu hannog i ryddhau pobl cyn gynted ag y byddant yn ffit yn feddygol, ac mewn cyd-destun lle nad oes llawer o becynnau gofal cymdeithasol ar gael, mae'n hanfodol bod gweithwyr

iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwybodol o ofalwyr wrth iddynt gefnogi pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Hyfforddiant Ymwybodol o Ofalwyr ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

Mae ein hyfforddiant ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol yn parhau, ond gydag aelod o staff ychwanegol pwysig i'r tîm a newid bach mewn ffocws.

- Hoffem estyn croeso cynnes iawn i Isabella, sy'n ymuno fel ein Cyd-hyfforddwr Gofalwyr cyflogedig cyntaf, sydd bellach yn cyd-gyflwyno sesiynau hyfforddi gyda ni (cyn belled â bod ymrwymiadau eraill yn caniatáu). Roedden ni'n awyddus i symud o stori bersonol gofalwr yn rhan fach o sesiwn, i ofalwr yn cael rôl gyfartal wrth gyd-gyflwyno'r sesiwn gyfan fel hyfforddwr proffesiynol. Mae adborth gan gyfranogwyr wedi bod yn wych, ac rydym yn bwriadu recriwtio Cyd-Hyfforddwyr Gofalwyr pellach eleni. Cysylltwch os ydych chi'n adnabod rhywun a allai fod â diddordeb (rydym yn anelu at gael tîm mor amrywiol â phosib, gan gynnwys o leiaf un siaradwr Cymraeg).
- Mae'r pwysau ar y gwasanaethau iechyd sydd yn cael ei adrodd yn eang wedi ei gwneud hi'n anodd i staff fynychu sesiynau, felly mae ein pwyslais wedi symud i bobl mewn hyfforddiant yn y sector iechyd, lle rydyn ni'n gallu siarad â grwpiau mawr ar yr un pryd, fel arfer rhwng 20-50 o fyfyrwyr. Mae prifysgolion wedi bod yn ymatebol ac yn gefnogol, ac mae'r diddordeb a'r empathi a ddangoswyd gan fyfyrwyr yn y dosbarthiadau wedi bod yn wych. Y nod yw cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith gweithlu'r dyfodol, ond mae hefyd yn cael effaith uniongyrchol ar wasanaethau nawr, gan fod myfyrwyr mewn hyfforddiant clinigol yn gweithio mewn amgylcheddau clinigol o fewn ychydig wythnosau ar ôl dechrau eu cyrsiau.
- Os hoffech drefnu sesiwn Ymwybyddiaeth o Ofalwyr am ddim ar gyfer eich staff neu fyfyrwyr, cysylltwch â dzilkha@carers.org

Hyfforddiant Ymwybodol o Ofalwyr ar-lein ar gyfer gweithwyr cymdeithasol

Mae pob un o'n sesiynau hyfforddi Ymwybodol o Ofalwyr ar-lein ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn 2023/24 yn fyw erbyn hyn. Gallwch gofrestru ar gyfer ein hyfforddiant rheolaidd yma. Mae'r holl sesiynau ar agor i weithwyr cymdeithasol o unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru.

Rydym wedi bod yn darparu hyfforddiant ar-lein ers tro, ond rydym bellach yn cymryd datganiadau o ddiddordeb gan awdurdodau lleol os ydyn nhw eisiau i ni gynnal sesiwn/sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb. Mae sawl awdurdod lleol wedi cysylltu â ni yn barod, felly rhowch wybod i ni p'un a yw hyn yn rhywbeth y mae gennych ddiddordeb ynddo, drwy gysylltu â Jake.Smith@carerswales.org

Dylanwadu ar ran y prosiect

Ym mis Tachwedd, fe wnaethom gynnal digwyddiadau gyda Rheolwyr/Swyddogion Gwaith Cymdeithasol ar y canfyddiadau hyd yn hyn o'r prosiect Ymwybodol o Ofalwyr yng Ngogledd a De Cymru.

Cyhoeddodd y Sefydliad Materion Cymreig (IWA), melin drafod yng Nghymru, erthygl yr ysgrifennon ni am y prosiect Ymwybodol o Ofalwyr, ac am bwysigrwydd gweithwyr cymdeithasol i ofalwyr a oedd yn ceisio cael cymorth yng nghyd-destun yr argyfwng gofal cymdeithasol. https://www.iwa.wales/agenda/2022/11/bringing-unpaid-carers-and-social-workers-together-to-innovate-social-care/

Ym mis Medi, fe wnaethom fynychu cynhadledd ADSS Cymru (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol) i hyrwyddo'r prosiect Ymwybodol o Ofalwyr yn uniongyrchol i uwch arweinwyr mewn gwasanaethau cymdeithasol, cynghorwyr awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn y trydydd sector. Ym mis Tachwedd, fe wnaethom arddangos yng nghynhadledd Cydffederasiwn GIG Cymru hefyd, lle'r oeddem yn gallu creu cysylltiadau gydag arweinwyr y GIG a thrafod canfyddiadau'r prosiect gyda'r rheini oedd yn bresennol.

Pecyn Cymorth Cyd-Gynhyrchu

Un o brif thema'r prosiect Ymwybodol o Ofalwyr yw annog dull cydgynhyrchiol o ddatblygu gwasanaethau, gyda sefydliadau'n gweithio law yn llaw â gofalwyr. Mae cyd-gynhyrchu yn derm sy'n cael ei or-ddefnyddio braidd ac yn aml, yn cael ei ddefnyddio'n anghywir. Os ydych chi eisiau cael gwybod mwy am gyd-gynhyrchu, ewch i wefan Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, sy'n gweithio gyda ni ar yr agwedd hon o'r prosiect: Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru (copronet.wales)

Os hoffech weld rhywfaint o enghreifftiau o sut mae cyd-gynhyrchu gyda gofalwyr yn edrych, darllenwch ein dogfen esboniadol fer:carer-aware-co-production-case-studies-eng.pptx (live.com)

Mae pecyn cymorth mwy manwl a chynhwysfawr yn cael ei gynhyrchu nawr, gyda dyddiad cyhoeddi disgwyliedig o Fawrth 2023. Os hoffech wybod mwy am yr agwedd hon ar y prosiect Ymwybodol o Ofalwyr, cysylltwch â dzilkha@carers.org

---

Os oes gennych chi unrhyw adborth, sylwadau neu gwestiynau am y prosiect Carer Aware neu'r cylchlythyr hwn, gadewch i ni Na drwy gysylltu â careraware@carerswales.org

---